Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

# TALIADAU UNIONGYRCHOL

## Statws Hunangyflogedig

## Canllaw - Taliadau Uniongyrchol a Defnyddio Gofalwyr Hunangyflogedig, Micro Ofalwyr, Asiantaethau, Asiantaethau Cyflwyno ac Unig Fasnachwyr

Mae'r canllaw hwn yn tynnu sylw at bethau y mae'n rhaid i chi eu gwybod wrth gyflogi Cynorthwyydd Personol (CP) i sicrhau bod ei statws cyflogaeth yn gywir. Mae'n bwysig cofio nad yw statws cyflogaeth yn ddewis. Mae'n statws a bennir gan gyfraith cyflogaeth a rheoliadau treth.

Mae dod yn Dderbynnydd Taliad Uniongyrchol (DTU) yn eich galluogi i benderfynu sut, pryd a ble y darperir eich gofal a chymorth. Fel arfer, cytunir ar hyn fel rhan o'ch asesiad gydag ymarferydd gofal cymdeithasol ac unwaith y byddwch yn gymwys i dderbyn gwasanaeth, cynigir amrywiaeth o opsiynau o ran sut y gellir diwallu eich anghenion.

Mae yna rywfaint o gyfrifoldeb y mae'n rhaid i chi ei dderbyn pan fyddwch yn derbyn Taliadau Uniongyrchol, p'un a ydych yn penderfynu comisiynu gwasanaethau gan asiantaeth, cyflogi cynorthwyydd personol, prynu darn o offer, neu ei ddefnyddio mewn ffordd arall.

**Yr hyn sy'n sail i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol yw rhoi mwy o ymreolaeth, rheolaeth ac annibyniaeth i chi. Chi, fel un sy'n derbyn Taliad Uniongyrchol fydd yn cyfarwyddo'r tasgau sydd angen eu cyflawni, a byddwch yn trefnu rhywun i lanw os na fydd y CP yn medru gweithio oherwydd salwch neu wyliau. Chi sydd wrth y llyw!**

Rhai pwyntiau allweddol i helpu i benderfynu a yw gweithiwr yn gyflogedig neu a yw'n hunangyflogedig.

**Cyflogedig**

- Mae gan Gynorthwyydd Personol gontract cyflogaeth o'r dyddiad cychwyn.
- Fel cyflogwr, chi sy'n cyfarwyddo'r tasgau sydd angen eu cyflawni, pryd, sut a pha amser.
- Byddwch wedi cofrestru gyda Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) fel cyflogwr a byddwch yn gyfrifol am.



- Gynllun Talu Wrth Ennill (PAYE) y gweithwyr, (fe gewch help gyda hyn gan y darparwr cyflogres o'ch dewis).
- Fel cyflogwr, rhaid i chi drefnu i gael rhywun i lanw pan fydd eich gweithiwr i ffwrdd yn sâl, ar wyliau neu am resymau eraill pan na fydd yn gallu gweithio.

**Hunangyflogedig**

- Person sy'n rhedeg busnes neu'n gweithio iddo'i hun.
- Y nhw sy'n penderfynu pa waith i'w wneud, pryd i'w wneud a sut. Nid ydynt yn gweithio dan unrhyw oruchwyliaeth na chyfarwyddyd. Gallant anfon rhywun arall, o'u dewis os na allant weithio.
- Y nhw sy'n gyfrifol am dalu eu cyfraniadau treth eu hunain a chyfraniadau Yswiriant Gwladol i CThEF.
- Maent yn paratoi anfonebau i dderbyn tâl ac yn penderfynu faint maen nhw'n ei godi.
- Dylent ddarparu contract yn nodi eu telerau.

Wrth ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol, cynigir cymorth a chyngor i chi, ac mae llawer o help ar gael ar eich cyfer.

**Cynorthwywyr Personol:** maent yn cael eu cyflogi gan ac yn gweithio i Dderbynwyr Taliadau Uniongyrchol i gwblhau tasgau ar gyfarwyddyd DTU. Maent yn cael eu talu drwy gynllun Talu Wrth Ennill, ac mae ganddynt hawliau cyflogaeth.

**Gofalwyr hunangyflogedig:** maent yn gall derbyn neu wrthod gwaith, anfon person yn eu lle a nhw sy'n rheoli unrhyw waith sydd angen ei wneud a sut y byddant yn gwneud y gwaith hwnnw.

**Micro Ofalwyr:** y math o wasanaethau gofal a chymorth y gallai micro-ofalwr eu cynnig (ond heb eu cyfyngu iddynt ) yw gwasanaethau gofal cartref, seibiant i ofalwyr, gweithgareddau hamdden a lles, help gyda gofal, glanhau a dyletswyddau eraill yn y cartref, gofal am anifeiliaid anwes, help gyda garddio a chwmnïaeth. Yn gyffredinol maent yn hunangyflogedig ac yn cael eu cefnogi gan Ficro Gatalyddion yn eu rôl. Efallai y bydd angen i Micro-ofalwr gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, felly holwch bob amser i weld a oes angen statws cofrestru arnynt.

**Asiantaethau:** mae amrywiaeth o asiantaethau yn cynnig cymorth yn y cartref i bobl sydd angen gofal personol a mathau eraill o gymorth. Rhaid bod yr asiantaethau hyn wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru os ydynt yn cynnig gofal ymarferol i 4 neu fwy o bobl yn y gymuned.

**Unig Fasnachwyr:** gall pobl weithio drostynt eu hunain yn unig yn cael eu hystyried yn unig fasnachwr. Efallai bod pobl yn gweithio iddyn nhw. Mae rhai enghreifftiau o unig fasnachwyr yn cynnwys adeiladwyr, plymwyr, trydanwyr, peintwyr ac addurnwyr, gyrwyr tacsi a glanhawyr ffenestri.

**Fel un sy'n derbyn taliad uniongyrchol, argymhellir eich bod yn gwirio ac yn cael caniatâd gan yr Awdurdod Lleol cyn troi at wasanaethau gweithiwr gofal cymorth hunangyflogedig.**

## Cysylltiadau Defnyddiol

Bydd gan bob Awdurdod Lleol dimau Taliadau Uniongyrchol profiadol sydd yno i'ch cefnogi os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os oes angen gwybodaeth arnoch. Byddant yn ymdrechu i roi cymaint o help a sicrwydd ag sydd ei angen arnoch, hyd nes y byddwch yn teimlo'n hyderus i reoli'r trefniadau eich hun. Ond cofiwch, os oes angen cymorth neu gyngor arnoch bob hyn a hyn, mae'r tîm bob amser o fewn cyrraedd ar y ffôn neu drwy e-bost.

Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth sylfaenol i chi am Daliadau Uniongyrchol a defnyddio unigolion Hunangyflogedig, Micro-Ofal, Asiantaeth neu unig fasnachwyr. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol lleol.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**
**Swyddfa'r Tîm Taliadau Uniongyrchol**
**e.** directpayments@blaenau-gwent.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**
**Swyddfa'r Tîm Taliadau Uniongyrchol**
**e.** directpayadvisors@caerphilly.gov.uk **f.** 01495 235522

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Fynwy**
**Tîm Taliadau Uniongyrchol**
**e.** mccdirectpaymentteam@monmouthshire.gov.uk

**Cyngor Dinas Casnewydd**
**Tîm Cymorth Taliadau Uniongyrchol**
**e.** direct.payments@newport.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**
**Tîm Byw'n Annibynnol (Taliadau Uniongyrchol)**
**e.** independentlivingteam@torfaen.gov.uk

NEWPORT CITY COUNCIL CYNGOR DINAS CASNEWYDD · Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council · monmouthshire sir fynwy · TORFAEN COUNTY BOROUGH · BWRDEISTREF SIROL TORFAEN · CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI